# CYNGOR SIR FYNWY

## Pwyllgor Cynllunio
## Neuadd Y Sir, Y Rhadyr, Brynbuga, NP15 1GA
## Dydd Mawrth, 6ed Mai, 2025, 2.00 pm

**CYNGHORWYR YN BRESENNOL:**

Cynghorydd Sirol Phil Murphy (Cadeirydd)
Cynghorydd Sirol Dale Rooke (Is-Gadeirydd)

Cynghorydd Sirol: Jill Bond, Fay Bromfield, Emma Bryn, Jan Butler, Tony Easson, Steven Garratt, Meirion Howells, Su McConnel, Jayne McKenna, Maureen Powell, Sue Riley, Ann Webb

## SWYDDOGION YN BRESENNOL:

| | |
|---|---|
| Amy Longford | Rheolwr Treftadaeth |
| Philip Thomas | Rheolwr Gwasanaethau Datblygu |
| Andrew Jones | Development Management Area Team Manager |
| Joanne Chase | Cyfreithiwr a Phennaeth Cyfraith Fasnachol |
| Richard Ray | Paralegal |
| Richard Williams | Swyddog Gwasanaethau Democrataidd |

## YMDDIHEURIADAU:

Cynghorydd Sirol John Crook, Laura Wright

1. **Datganiadau o Fuddiant**

Ni chafwyd Datganiadau o Fuddiant.

2. **Cadarnhau cofnodion y cyfarfod blaenorol**

Cadarnhawyd cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Cynllunio dyddiedig 1 Ebrill 2025.

3. **Cais DM/2024/01281 – Cynnig ar gyfer 2 annedd ar wahân gyda pharcio ar y safle. Tir tu ôl i Rosemary, Heol Beaufort, Osbaston, Trefynwy.**

Fe wnaethom ystyried adroddiad y cais a gohebiaeth hwyr a argymhellwyd ar gyfer cymeradwyaeth gyda’r amodau a amlinellir yn yr adroddiad ac yn ddarostyngedig i Gytundeb Adran 106.

https://www.youtube.com/live/etVBk0h8wzA?si=RH8Ljc5vyLYeQzpY&t=158

Wrth nodi manylion y cais a’r sylwadau a fynegwyd, cynigiwyd gan y Cynghorydd Sir Su McConnell ac eiliwyd gan y Cynghorydd Sir Maureen Powell fod cais DM/2024/01281 yn cael ei gymeradwyo gyda’r amodau a amlinellir yn yr adroddiad ac yn ddarostyngedig i Gytundeb Adran 106 gydag amod ychwanegol i sicrhau cynllun o dirlunio caled (tramwyfeydd) cyn gwneud y datblygiad.

Pan roddwyd y mater i bleidlais, cofnodwyd y pleidleisiau canlynol:

| | | |
|---|---|---|
| O blaid cymeradwyo | - | 14 |
| Yn erbyn cymeradwyo | - | 0 |
| Ymatal | - | 0 |

Derbyniwyd y cynnig.

Penderfynwyd cymeradwyo cais DM/2024/01281 gyda'r amodau a amlinellir yn yr adroddiad ac yn ddarostyngedig i Gytundeb Adran 106 gydag amod ychwanegol i sicrhau cynllun o dirlunio caled (tramwyfeydd) cyn gwneud y datblygiad.

**3.1. Penderfyniad Apêl - 1 Monnow Keep, Trefynwy, Sir Fynwy NP25 3EX.**
Cawsom adroddiad gan y Gyfarwyddiaeth Cynllunio sy'n cyfeirio at benderfyniad apêl yn dilyn ymweliad safle a gynhaliwyd yn 1 Monnow Keep, Trefynwy, Sir Fynwy ar 11 Mawrth 2025.

**Apêl A**

Nodwyd y gwrthodwyd yr apêl ac y cadarnhawyd yr Hysbysiad Gorfodaeth. Gwrthodwyd caniatâd cynlluno ar y cais a fernir a wnaed dan adran 177(5) Deddf 1990, fel y'i diwygiwyd.

**Apêl B**

Nodwyd y gwrthodwyd yr apêl.

**3.2. Penderfyniad ar Gostau - 1 Monnow Keep, Trefynwy, Sir Fynwy, NP25 3EX.**
Cawsom adroddiad y Gyfarwyddiaeth Cynllunio sy'n cyfeirio at y penderfyniad ar gostau yng nghyswllt 1 Monnow Keep, Trefynwy, Sir Fynwy.

Nodwyd y gwrthodwyd y cais am ddyfarnu costau yng nghyswllt Apêl A ac Apêl B.

4. **ER GWYBODAETH – Yr Arolygiaeth Gynllunio – Penderfyniadau a gafwyd am Apeliadau / Costau**

https://www.youtube.com/live/etVBk0h8wzA?si=2FfMLBmSqWDenHbk&t=1060